Taflen Ffeithiau Cynghorau Cymuned a Thref

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn edrych ar gwynion yn erbyn Cynghorau Cymuned a Thref. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'n taflen wybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth. Efallai yr hoffech hefyd ddarllen ein Taflenni Ffeithiau eraill sy'n ymdrin â meysydd gwasanaeth cyhoeddus penodol.

Mae 735 o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru sy'n cynrychioli'r haen o lywodraeth sydd agosaf at y bobl. Mae'r cymunedau a wasanaethir gan y Cynghorau hyn yn amrywio o aneddiadau gwledig bychain i drefi mawr, ac mae cyllideb pob Cyngor yn amrywio. Fodd bynnag, yr un nod sy'n gyffredin i bob Cyngor yw gwasanaethu eu cymunedau a gwella ansawdd bywyd yn eu hardal.

Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn gyfrifol atebol i'w hetholaethau lleol i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau ac i ddarparu ac i gynnal mwynderau lleol. Mae pob cyngor yn cynnwys aelodau etholedig neu, mewn rhai achosion, aelodau cyfetholedig.

Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn gweithredu'n unol â phwerau a dyletswyddau statudol. Mae gweithdrefnau penderfynu pob cyngor yn aml yn seiliedig ar eu cyfres eu hunain o reolau sefydlog; bydd copïau o'r rhain ar gael gan Glerc y Cyngor.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Os ydych yn credu bod penderfyniad a wnaethpwyd gan Gyngor Cymuned neu Dref yn ddiffygiol, efallai y gall yr Ombwdsmon eich helpu. O gofio'r amrywiaeth eang o swyddogaethau cymunedol y mae Cynghorau Cymuned a Thref yn gyfrifol amdanynt, gall y mathau o gwynion a wneir i'r Ombwdsmon yn erbyn y Cynghorau hyn fod yr un mor amrywiol.

Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o gwynion y gall yr Ombwdsmon eu hystyried:

- penderfyniadau neu gamau a gymerwyd gan y Cyngor sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau a ddarperir ganddo;
- gweithdrefnau a fabwysiedir gan bob Cyngor yn ei gyfarfodydd;
- yr arferion recriwtio a fabwysiedir;
- penderfyniadau a ddaeth i'r amlwg ar ôl i wybodaeth gael ei datgelu o dan ddeddfwriaeth Mynediad at Wybodaeth megis y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i gŵyn oni bai bod unigolyn (neu, mewn rai achosion, grŵp o unigolion) wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi personol oherwydd gweithred neu ddiffyg gweithredu ar ran Cyngor Cymuned neu Dref. Rhaid i'r gŵyn gael ei gwneud gan y person sydd wedi dioddef yr anghyfiawnder, caledi neu golled dan sylw (neu eu cynrychiolydd).

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni all yr Ombwdsmon:

- newid penderfyniad a wnaethpwyd yn briodol gan Gyngor;
- fel arfer, ni all ymchwilio i gŵyn os oes, neu os oedd, hawl i apelio;
- fel arfer, ni all ymchwilio i gŵyn os oes ffordd gyfreithiol o unioni'r sefyllfa.

Materion i gadw mewn cof

- Mae cwynion sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau unigol Cyngor Cymuned neu Dref yn cael eu hystyried o dan broses wahanol. Gweler ein Taflen Ffeithiau Codau Ymddygiad am ragor o wybodaeth.

- Dylai cwynion sy'n ymwneud â phenderfyniadau neu gamau a gymerwyd gan Gyngor Cymuned neu Dref gael eu cyfeirio'n gyntaf at Glerc y Cyngor. Dylai copi o bolisi cwyno'r Cyngor fod ar gael ar wefan pob Cyngor neu gan y Clerc.

- Nid oes yn rhaid i chi ddefnyddio cyfreithiwr neu unrhyw eiriolwr arall i wneud cwyn i'r Ombwdsmon.

Gwybodaeth bellach

Mi gewch gyngor cyfreithiol di-dâl ac annibynnol am y gwasanaethau a ddarperir gan eich Cyngor gan eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol: www.citizensadvice.org.uk.

Gall gwefan eich Cyngor hefyd gynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir yn eich ardal ac am weithdrefnau'r Cyngor. Neu, gallwch gysylltu â Chlerc y Cyngor.

Mae gwybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref ar gael hefyd gan Un Llais Cymru, y mudiad sy'n cynrychioli ac sy'n darparu gwasanaethau cymorth i Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru: www.unllaiscymru.org.uk.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ac amhleidiol; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn mae'n ei argymell - ond, fel arfer, maent yn gwneud hynny bron yn ddieithriad. Ceir enghreifftiau o achosion y mae'r Ombwdsmon wedi ymchwilio iddynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombwdsmon-cymru.org.uk.

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ